CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR CYLLID
7.30pm 13 IONAWR 2022

Cynhaliwyd y cyfarfod trwy gyswllt fideo yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Tom Defis. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol i fod yn bresennol i drafod y gyllideb ar gyfer 2022/23.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Tom Defis.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Tom Defis, Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Alun Lenny, Ken Lloyd, Ioan Matthews, Emlyn Schiavone, Jeff Thomas, Matthew Thomas a Wyn Thomas

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Emma Smith - Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid

278. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Miriam Moules.

279. Datgan Buddiannau

Dim

280. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cyllid

Dim materion yn codi.

281. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn i Dalu'r Rhestr Cyfrifon ar gyfer Ionawr 2022.

Ystyriodd yr aelodau'r taliadau a derbyniwyd y rhestr. Cynigiodd y Cynghorydd Ken Lloyd y dylai'r rhestr daliadau gwerth cyfanswm o **£13,154.22** gael ei chymeradwyo a'i llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc. Eiliodd y Cyng. Emlyn Schiavone y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo pob taliad.

282. Adroddiad Ariannol

Darparwyd adroddiad cyllid ar gyfer Ebrill 2021 i 31 Rhagfyr 2021.

Balansau banc y Cyngor fel ar yr 31 Rhagfyr 2021 fel y ganlyn:

	£
HSBC Cyfrif Cyfredol	334,519.43
HSBC Cyfrif Wrth Gefn	288,602.43

Cyfanswm yn y banc	**452,081.85**

Balansau Cyfrifon Eraill fel ar 31 Rhagfyr 2021:

Lwfans y Maer	-	£4,165.64
Ras y Maer	-	£5,846.06
Siop De Parc Caerfyrddin	-	£6,776.07

- Cyfanswm y gwariant gros am y cyfnod 1af Ebrill hyd at 31 Rhagfyr 2021 oedd £507,577.89.
- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod, gan gynnwys Siop De'r Parc, oedd £101,629.36. Felly, y gwariant net cyffredinol yw £405,948.53.
- Gofyniad y Gyllideb / Praesept Net ar gyfer 2021/22 yw £779,129, ac mae'r cyfan wedi'i dderbyn. Bydd yr aelodau'n nodi o'r uchod bod y Cyngor o fewn y gyllideb ar 31 Rhagfyr 2021.

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

283. Rhestr o'r Incwm Misol

NODWYD y rhestr**.**

284. Cysoniadau Banc Chwarterol

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r cysoniadau banc chwarterol ar gyfer y cyfrif cyfredol, y cyfrif wrth gefn a chyfrifon y Siop De. Ni chodwyd unrhyw faterion, a **CHYMERADWYODD** y pwyllgor y cysoniadau banc.

285. Cyllideb ddrafft Cyngor Tref 2022/23

Datganodd y Cynghorwyr Ken Lloyd ac Emlyn Schiavone fuddiant fel ymddiriedolwyr Oriel Myrddin, a apwyntiwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Roedd adroddiad gyda gwybodaeth ategol berthnasol wedi'i ddosbarthu i'r holl aelodau cyn y cyfarfod, a oedd bellach yn cael ei gyflwyno i'r aelodau gan Glerc y Dref. Cafwyd trafodaeth faith wrth ystyried cynigion cyllideb y Cyngor a lefel y praesept ar gyfer 2022/23.

Cyfanswm incwm a gwariant rhagamcanol y Cyngor ar gyfer 2022/23 yw £898,355.58 a £915,858 yn y drefn honno. Mae'r incwm yn cynnwys praesept y cyngor ac arian a dderbyniwyd o werthu a llogi nwyddau a gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r gwariant yn cynnwys gwariant refeniw, gwariant cyfalaf, buddion cymunedol (grantiau) a gweithgareddau a digwyddiadau canol y dref.

Yn dilyn trafodaeth gan yr aelodau cynigir y **prosiectau cyfalaf** a ganlyn yn ystod 2022/23:

a)	Atgyweiriadau ac uwchraddio'r system wresogi yn y capel yn Mynwent Caerfyrddin	-	12,000

b)	Profi cerrig beddau rhag cwympo (3 blynedd)	-	3,250
c)	Llifoleuadau newydd yn y parc (lampau a thrydan) (£75,000 dros 3 blynedd @£25 mil y flwyddyn)	-	25,000
d)	Diffibriliwr ar gyfer ciosg ffôn	-	1,500
e)	Awyru aer i Neuadd Ddinesig San Pedr	-	14,000
f)	Desg sain ddigidol newydd i'r neuadd	-	1,600
g)	Recordydd DVR newydd ar gyfer TCC Neuadd Ddinesig San Pedr	-	523
h)	Torrwr perthi batri	-	1,500
i)	Byrddau i orchudduo beddau agored	-	1,200
j)	Adnewyddu man storio i greu man bwyta cysgodol ar gyfer y siop de	-	9,600
	Cyfanswm gofyniad y gyllideb gyfalaf	-	£70,173

Cyfraniadau Cyngor Tref i Ddigwyddiadau a Sefydliadau:

Taliadau Blynyddol a Chyfraniadau Cymunedol	**£**
Cronfa Grantiau Bychain (Adran 137 D.Ll. L 1972)	**3,700**
Canolfan Cyngor ar Bopeth (Adran 142 D.Ll. L 1972)	**500**
Oriel Myrddin (Adran 145 D.Ll. L 1972)	**3,700**
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Adran 145 D.Ll. L 1972)	**200**
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (Adran 145 D.Ll. L 1972)	**200**
Eisteddfod Ryngwladol Llangollen (Adran 145 D.Ll.L 1972)	**200**
Gwyl Cerdd Dant (Adran 145 D.Ll. L 1972)	**200**
Opera Ieuenctid Caerfyrddin (Adran 145 D.Ll. L 1972)	**200**
Dr M'z (Adran 137 D.Ll. L 1972)	**1,000**
Is-gyfanswm	**9,900**
Gweithgareddau Canol y Dref, Pŵer Llesiant, Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000	
Gwobrau Chwaraeon Blynyddol	**1,000**
Cynnau Goleuadau Nadolig	**5,000**
Gosod Goleuadau Nadolig	**15,000**
Amnewid Goleuadau Nadolig	**6,000**
Dydd y Ceirw	**5,000**
Dydd Gŵyl Dewi Sant	**3,000**
Gŵyl yr Afon	**2,000**
Gŵyl Canol Dref	**2,000**
Gwobrau Safle Harddaf	**500**
Is-gyfanswm	**39,500**
CYFANSWM	**49,400**

- Prosiectau Cyfalaf. Roedd yr holl aelodau o blaid y rhestr fel y'i cyflwynwyd ac **ARGYMHELLWYD** l'w chymeradwyo gan y Cyngor.

- Cefnogaeth Ariannol i sefydliadau lleol a digwyddiadau canol tref. Cynigiodd y Cyng. Gareth John y dylid, oherwydd y gwahaniaeth barn ynghylch rhai o'r cyfraniadau, **ARGYMELL** y rhestr fel y'i cyflwynwyd i'r Cyngor i'w chymeradwyo. Roedd yr holl aelodau o blaid y cynnig.
- Cyllideb 2022/23. **ARGYMHELLWYD** cymeradwyo'r gyllideb a gyflwynwyd gyda chynnydd bychan mewn cyflogau a chynnydd mewn biliau cyfleustodau.
- Praesept 2022/23.Cynigiodd y Cyng. Matthew Thomas y dylai'r gyfradd praesept aros yr un fath eleni h.y., £788,855.58. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng, Wyn Thomas, cytunodd yr holl aelodau ac **ARGYMHELLWYD** y cynnig i'r Cyngor.

Nododd y Maer, y Cyng, Gareth John ei ddiolch am y gwaith paratoi a wnaed gan staff y Cyngor Tref ar gyfer y cyfarfod hwn, ac am ddosbarthu'r papurau cynhwysfawr i gefnogi'r drafodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.47yh.